# Heddwch

Rhif 3 Gwanwyn 1992 20c


# ETHOLIAD '92

## **Trident** – mae'r distawrwydd yn fyddarol




**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a dros fyd lle bydd yr adnoddau anferth a wastreffir heddiw ar filitariaeth yn cael eu hail-gyfeirio i ddiwallu gwir anghenion y gymdeithas ddynol.**

# Trident – Beth Nawr?



**Ar drothwy lawnsio llong danfor Trident gyntaf Prydain, nid yw'r dyfodol erioed wedi edrych yn fwy llwm i'r rhaglen Trident.**
**Mae swyddogion hŷn yn y llynges yn beirnadu'r angen am Trident yn agored, ac mae'r rhaglen yn dal i ddioddef problemau adeiladu ac ofnau am ddiogelwch.**

**Dangoswyd Trident i'r cyhoedd am y tro cyntaf ddydd Mercher y Lludw, pan gafod HMS Vanguard ei 'rolio allan' o iard longau VSEL yn Barrow. Lawnsir y llong danfor yn swyddogol ddydd Iau 30 Ebrill pan gredir y bydd y Frenhines yn ymweld â Barrow ar gyfer seremoni enwi Vanguard.**

Bydd Vickers a'r Weinyddiaeth Amddiffyn 'yn ceisio defnyddio'r achlysur i ennill cymaint o gyhoeddusrwydd ag sy'n bosibl i Trident, ond bydd ymgyrchwyr gwrth-niwclear yn bresennol hefyd i nodi'r achlysur!

Ar adeg pan mae Boris Yeltsin a George Bush yn cymryd camau i leihau eu harfogaeth niwclear, mae gwleidyddion Prydeinig dan bwysau cynyddol i ddileu'r system Trident anferthol o ddrud. Chwedl cyn-gomander yn y llynges a ddyfynwyd yn y papur Scotland on Sunday:

'Wedi chwalu Cynghrair Warsaw, ar adeg pan nad oes bellach fygythiad o ymosodiad ennill-y-blaen Sofietaidd, o safbwynt gor-ladd mae Trident yn destun chwithdod rhyngwladol.

'Yn syml iawn, rydym bellach yn anghyson â gweddill y byd. Gwell o lawer fyddai terfynu'r cynllun yn awr cyn i'r costau gynyddu allan o bob rheolaeth.'

Mae costau'r prosiect eisoes yn saethu i'r entrychion o ganlyniad i broblemau'r rhaglen adeiladu anferth yng nghanolfannau'r llynges yn Coulport a Faslane, y gellir ei gymharu, o ran maint, â gwaith adeiladu Twnel y Sianel.

Aeth nifer o is-gontractwyr ar gyfer y rhaglen adeiladu Trident yn Faslane yn fethdalwyr oherwydd methiant prif gontractwr y cynllun, Tarmac, i'w talu. Mae dadleuon ynghylch talu wedi peri oedi yn y gwaith adeiladu, ac mae un is-gontractwr yn dwyn achos llys er mwyn ad-ennill £3.5 miliwn yr honna'r cwmni ei fod yn ddyledus iddo am waith yn Faslane.

Mae camgymeriadau dylunio wedi peri oedi yn Coulport hefyd. Mae'r gwaith o adeiladu glanfa anferth dan do i orchuddio'r man lle tynnir ergydion taflegrau o longau tanfor Trident eisoes wedi dioddef dwy flynedd o oedi, ac mae rhai'n ofni y pair camgymeriadau dylunio i'r lanfa i ddymchwel pan geisir ei hwylio i Coulport o Hunterston ar afon Clud.

Cododd problemau pellach yn Aldermaston, lle bwriedir cynhyrchu ergydion niwclear ar gyfer Trident. Mae'n bosib y bydd yn rhaid dymchwel y cyfleuster trin gwastraff ymbelydrol sydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd – y cymhlyg A91 – a'i ail-adeiladu ar ôl darganfod bod pibellau a thariannau amddiffynol wedi cyrydu'n ddifrifol.

Mae'r gwaith yn Aldermaston eisoes flynyddoedd ar ei hôl hi o ganlyniad i lygredigaeth ac aneffeithiioldeb yn y rhaglen adeiladu ar y safle.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi archebu 23 taflegryn Trident D5 yn y flwyddyn ariannol gyfredol oddi wrth y cynhyrchwyr Americanaidd Lockheed am gost o £15 miliwn yr un, ond ymddengys yn fwyfwy tebyg na fydd gwaith Aldermaston yn gallu cynhyrchu digon o ergydion i'w rhoi ar y taflegrau.

**Peter Burt**

## GWEITHREDU LLEOL

*Aeth Ionawr 31ain, y dyddiad y disgwylid gweld lawnsio'r llong danfor Trident gyntaf, heibio heb i ddim byd ddigwydd – efallai bod y chwithdod o balu ymlaen mor gyhoedduas â chynyddu ei gallu niwclear yn yr un wythnos ag yr oedd yr Arlywyddion Bush a Yelstin yn cwrdd i drafod diarfogi niwclear yn ormod i hyd yn oed y llywodraeth hon ei stumogi!*

*Ond parhaodd grwpiau CND a oedd wedi trefnu gweithgareddau ar gyfer yr wythnos â'u cynlluniau.*

*Dosbarthwyd taflenni y tu allan i'r Sefydliad Arfau Atomig yn Llanisien ac yng nghanol Caerdydd a Phenbont. Casglwyd cannoedd o enwau ar y ddeiseb 'Daliwch ar y Cyfle' – ac, yn ôl ein grwpiau, cafwyd ymateb positif iawn i'n galwad am ddileu Trident.*

*Mae'n neges ni, sef y gellid gwario'r arian a arbedid drwy atal Trident ar ysgolion ac ysbytai, ar adeiladu tai ac ar hyfforddi ar gyfer swyddi, yn neges boblogaidd ar y strydoedd – felly, allan â ni i'r priffyrdd a'r caeau i droi'r gefnogaeth honno yn weithredu positif.*

*Cadarnhawyd bellach mai dyddiad seremoni enwi swyddogol HMS Vanguard fydd Ebrill 30ain, a bydd gwrthdystiad yn iard-longau Barrow y diwrnod hwnnw. Bydd gweithredu yng Nghymru ar Fai 2il. Manylion gan Mary Jones ar 0792 774687.*

*Beth ellwch chi ei wneud nawr:*

- *Ysgrifennwch at eich AS ac at ymgeisyddion seneddol eraill yn eich etholaeth.*
- *Ysgrifennwch at eich papur lleol.*
- *Casglwch lofnodion ar y ddeiseb.*
- *Cefnogwch weithgareddau gwrth-Trident yn eich ardal chi.*
- *Peidiwch â cholli unrhyw gyfle i ddweud Dilewch Trident.*

*Mae taflenni, posteri, deisebau a ffeithlenni Trident ar gael gan CND Cymru. I'w harchebu, ffoniwch 0792 774687.*

*Hysbyseb noddedig yn y Western Mail*

*Mae cynlluniau ar y gweill i gymryd hysbyseb yn y Western Mail ar Ebrill 30ain yn galw am ddileu'r rhaglen Trident. Mae arnom angen eich cefnogaeth ariannol ar gyfer hyn. Danfonwch eich cyfraniadau at CND Cymru, 9 Idris Terrace, Abertawe SA6 8LT.*


## SUT Y GELLWCH CHI ATAL TRIDENT

*Er gwaethaf yr anawsterau, diau y bydd y rhaglen yn parhau oni weithia'r mudiad heddwch yn galed iawn i'w wrthwynebu. Dyma beth ellwch chi ei wneud i atal Trident.*

- *Gwrthdystiwch i atal Trident. Ewch i Barrow am y brotest 'farw' a'r blocâd ar y diwrnod lawnsio, neu ymunwch â gweithred leol. Gwybodaeth gan CND Barrow (0229) 835652 neu Gweithredu Morol Abertawe (0792) 830330 neu CND Cymru ar (0792) 774687.*
- *Ffoniwch neu ysgrifennwch at Vickers i gwyno am Trident ar (0229) 823366.*
- *Ysgrifennwch at y Frenhines ym Mhalas Buckingham, Llundain i ofyn iddi hi i beidio â chymryd rhan yn seremoni lawnsio Trident oherwydd natur wleidyddol y fath weithred.*
- *Cadwch Trident allan o'ch cartref drwy beidio â phrynu cynnyrch gan Creda, Canon, Jackson, Redring, Xpelair, Thorn, Mazda, Tungsram a GEC. Gwybodaeth bellach gan CND Gorllewin Canolbarth Lloegr ar 021 643 4617.*

# Fforddd bell tuag at ddiarfogi

**Gydag Etholiad Cyffredinol ar y gorwel, gofynnodd *Heddwch* i Bob Cole o CND Cymru i drafod yr argoelion am heddwch a diarfogi gyda Bruce Kent o'r Biwro Heddwch Rhyngwladol**




Ian Campbell

Bruce Kent yn siarad yn Abertawe ar 29 Chwefror yng nghynhadledd CND Cymru i'r wasg yn ystod cynhadledd Gymreig y Blaid Lafur

**B.C.** Ymddengys UDA a Rwsia fel pe baent o ddifri ynglŵn â diarfogi niwclear, ac maent wedi symud i ddechrau cael gwared â'u harfogaethau niwclear. Pam nad yw'r fath gamau ar y gweill, neu hyd yn oed dan drafodaeth, gan y prif bleidiau Prydeinig?

**B.K.** Wel, i gychwyn, dwi ddim yn credu nag yn cytuno â'ch barn chi bod UDA a Rwsia am wneud i ffwrdd â'u harfau niwclear. I'r gwrthwyneb, mae Yeltsin wedi dweud yn blwmp ac yn blaen y bydd eu hangen ar gyfer 'brawychwyr anturiaethus a gwleidyddion anghyfrifol'.

Mae Mr Baker a Mr Cheney wedi ei gwneud hi'n glir eu bod yn credu mewn braw-ataliaeth niwclear, ar lefel is. Yng ngwledydd Prydain, credaf mai barn y mwyafrif yw bod arfau niwclear yn ein gwneud yn fwy, yn hytrach na llai diogel, ac nid oes un o'r prif bleidiau'n fodlon herio'r ffwlbri niwclear hwn.

**B.C.** Felly, ydych chi'n gweld unrhyw obaith gwaredu'r byd o arfau niwclear?

**B.K.** Ydw, rwy'n credu bod digon o synnwyr cyffredin yn cylchdroi mewn gwahanol rannau o'r byd i wneud cael gwared ag arfau niwclear yn ddewis realistaidd. Meddyliwch am bobl feddygol y byd ... Mae'r Ymgyrch Feddygol yn Erbyn Arfau Niwclear wedi gwneud argraff anferth. Rwy'n credu bod y mudiadau'r amgylchedd a'r mudiadau datblygu yn sylweddoli bod arfau niwclaer, fel rhan o holl broses y ras arfau, yn faich annioddefol. Felly, rwy'n credu bod pocedi mawr o farn oleuedig yn y byd. Rwy'n credu mai hwy fydd yn drech yn y pen draw, ond dwi ddim yn credu eu bod wedi eu cynrychioli gan arweinyddiaeth y gwledydd neilltuol ar hyn o bryd.

**B.C.** Sut, felly, yn eich barn chi, y cawn ni wared o Trident – sut mae ei roi ar yr agenda?

**B.K.** Mae tair neu bedair ffordd wahanol o fynd ati gyda Trident, ac rwy'n credu bod yn rhaid eu cymryd ar wahân. Rwyf wedi credu erioed y dylem fod yn gweithio gyda'n cyfeillion yn America i'w gwneud hi'n llawer anos i Brydain gael gafael ar y taflegrau mae wedi eu rhentu neu beth bynnag gan yr Unol Daleithau. Wedi'r cwbl, pam ddylai America fod yn helpu Prydain i amlhau ei harfau niwclear pan maent am derfynu amlhau niwclear mewn rhannau eraill o'r byd?

Rwy'n credu y dylem fod yn gweithio ochr yn ochr â'r mudiad am annibyniaeth i'r Alban, gan bod teimlad cryf yn yr Alban bod Lloegr wedi dympio ei harfau niwclear yno dros y blynyddoedd. Os nad oes ganddynt rywle i angori Trident, yna maent yn mynd i edrych yn ffol dros ben.

Rwy'n credu bod rhaid i ni weithio gyda phobl fel yr Arglwydd Carver nad ydyw, mewn gwirionedd, yn wrth-niwclear, ond sydd yn erbyn Trident. Y prif beth yw cael pobl gyffredin i sylweddoli, hyd yn oed mor hwyr yn y dydd â hyn, bod miliynau o bunnau yn mynd i gael eu gwastraffu a allai gael eu gwario ar anghenion cymdeithasol gwirioneddol.

**B.C.** A welwch chi unrhyw wahaniaeth gwirioneddol rhwng y pleidiau gwleidyddol Prydeinig ar Trident; hynny yw, mae'r Ceidwadwyr yn dweud yn awr eu bod am archebu pedwar; dwi wedi drysu ynghylch safbwynt y blaid Lafur ar Trident – allech chi egluro?

**B.K.** Aha! .. Dwi'n credi bod gwahaniaeth mawr rhwng y pleidiau. Am un peth, nid oes unrhyw wrthwynebydd o fewn y Blaid Doriaidd sy'n gwrthwynebu Trident. Yr unig ddadl yw faint o ergydion niwclear y dylid eu cario.

Gyda'r blaid Lafur, y safbwynt swyddogol yw nad oedd Trident yn fraw-ataliad ... yr unig reswm amdano oedd i helpu'r broses negydu. Ond mae yna garfan bur sylweddol sydd yn gwrthwynebu arfau niwclear ac yn gwrthwynebu'r polisi newydd. Felly ... y peth gorau y gallaf ei ddweud am y ddwy brif blaid Brydeinig yw bod y blaid Lafur wedi cael ei llusgo'n anfodlon i mewn i'r rhaglen Trident, tra bod y blaid Geidwadol yn frwd o'i phlaid.

**B.C.** Gyda'r safbwynt hwnnw, a'r sefyllfa fyd-eang, nid yw diarfogi niwclear ar yr agenda. Rhyw deimlo rydw i ein bod yn rhy hwyr i atal amlhad niwclear – er enghraifft, mae Pakistan yn dweud bellach bod ganddynt hwy'r gallu i adeiladu arf niwclear.

**B.K.** Rwy'n credu y gallai hyd yn oed gymryd trychineb ddifrifol – math o Cherbobyl arfau niwclear – i beri i bobl ddechrau ailfeddwl. Ond fedrwn ni ddim dweud ei bod hi'n rhyw hwyr, neu'r un man i ni i gyd roi'r ffidil yn y to oherwydd bod pawb, lawr i Ethiopia ac Ynys Wyth yn mynd i fod ag arfau niwclear yn y man ... yr IRA, a phawb arall.

Yr hyn sydd yn galondid i mi yw bod cyn lleied o ddadlau deallus ynglŷn â'r angen am arfau niwclear – does neb yn egluro i be maen nhw dda. Gall Yelstin ddweud eu bod nhw yno ar gyfer brawychwyr, ond sut yn union y gellwch chi ddelio â brawychwr ag arf niwclear? Felly, calondid i mi yw gwacter meddwl y rheini sydd â phwer yn y mater hwn. Efallai eich bod chi'n iawn, efallai bod gennym ffordd bell i fynd, efallai ein bod ni'n rhy hwyr, ond mae'n well gennyf fi feddwl nad ydym.

**B.C.** Beth yw'ch barn chi ar chwalfa'r Undeb Sofietaidd? Mae rhai ohonom wedi bod yn dadlau ynghylch cenedlaetholdeb gyda chi ers amser maith, a'r gwahanol dueddiadau o fewn cenedlaetholdeb – sut ydych chi'n gweld pethau nawr?

**B.K.** Fe'i caf hi'n bur frawychus, y canolbwyntio ar yr hyn y byddaf yn ei alw'n genedlaetholdeb gwleidyddol heb ganolbwyntio llawn cymaint ar fframwaith byd-eang o gyfraith a llywodraeth. Nid beirniadu cenedlaetholdeb mo hynny – mae cenedlaetholwyr yng Nghymru a'r Alban sydd yn siarad y math o iaith rwy'n ei deall yn berffaith.

**B.C.** O fewn y ddau fis nesaf, fe fydd etholiad cyffredinol. Ni waeth beth fo lliw'r llywodraeth nesaf, beth ddylai fod ei blaenoriaethau, ar y llwyfan byd-eang, dyweder, a beth yw lle diarfogi yn hyn oll?

**B.K.** Dwi'n credu y bydd ar yr agenda, oblegid dwi'n credu bod y DU yn mynd i'r wal, a phan na fedr pobl fel Carver ac eraill ddod o hyd i reswm rhesymegol (dros Trident) ... rhaid bod llawer o fewn y lluoedd arfog sydd yn wrthwynebus iawn i wastraffu eu hadnoddau ar y raddfa hon.

Rwy'n credu mai prif orchwyl llywodraeth newydd fydd bod yn rhyngwladol, i'w gwneud hi'n eglur ei bod yn gwirioneddol gefnogi'r Cenhedloedd Unedig, ei bod yn credu yn Ewrop, go iawn, yn deall bod y problemau sy'n ein hwynebu yn rhai byd-eang ... peidio â bod yn Lloegr Fechan yn chwifio ei baneri ...

Gartref, rwy'n credu y bydd yn rhaid i'r llywodraeth newydd fynd i'r afael â chwestiwn addasu o economi ryfel i economi heddwch.


**B.C.** Ac a fydd y cyfaddasu hwn ym maniffesto etholiadol y Blaid Lafur?

**B.K.** Dwi'n mawr obeithio ... byddwn yn siomedig dros ben pe na bai yna gyfeiriad cryf at hynny yn y maniffesto. Gan eu bod yn ymgymryd ag ymrwymiad ariannol, rhaid iddynt ddod o hyd i'r arian ar ei gyfer ...

**B.C.** Yn ystod Rhyfel y Gwlff, buom yn dyst i ddefnydd arfau confensiynol, a gwelsom y dinistr torfol a achoswyd ganddynt ... dechreuodd CND Cymru ymehangu i fod yn fudiad heddwch ... A ydych chi'n credu y dylai CND fod yn symud yn y cyfeiriad hwnnw? ... neu a ddylem bara i fod yn fudiad gwrth-niwclear yn unig?

**B.K.** Dwi ddim yn siwr ein bod wedi bod yn fudiad gwrth-niwclear yn unig erioed. Yn sicr, nid dyna fy agwedd i erioed, a dwi ddim yn credu bod hynny'n wir am lawer o bobl ar y cychwyn ... roedd CND yn un o sylfaen-aelodau'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau yng nghanol y 70au. Felly, drwy fynd i'r afael â meysydd militaraidd eraill, dwi'n credu ein bod yn ffyddlon nid yn unig i'n cyfansoddiad presennol ond yn ffyddlon i hanes CND.

# Menywod o Sylwedd



## CRWYDRO DROS HEDDWCH

*Ar y 26ain o Ragfyr, manteisiodd Crwydron dros Heddwch ar y tywydd mwyn a dileu'r cyfyngiadau mynediad i gerdded ar hyd rhai o'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar Feysydd Tanio Milwrol Pontsenni.*

*Cyfarfuom ar hen ffordd y porthmyn rhwng Llangamarch a Thirabad, a cherdded ar hyd y ffordd farchogaeth gyhoeddus heibio i Fryn Du a Chrug Du, gan weld nifer o safloedd cyn-hanesyddol diddorol.*

*Wedi cerdded ar draws y bryniau moel, dyma ddilyn y ffordd tua'r gorllewin heibio i adfeilion tyddynod Y Graig a'r Maerdy yng Nghwm Egnant. A ninnau'n trafod holl wyliau Nadolig y gorffennol a gawsai eu dathlu yn y cartrefi gweigion hyn, daethom ar draws 'pentref' newydd ei adeiladu Cilieni.*

*Costiodd y pentref £7 miliwn i'w adeiladu ac fe'i defnyddir gan y fyddin yn unswydd i'r diben o hyfforddi i ladd pobl mewn cartrefi teuluol. Cawsom bicnic rhwng ffug gerrig beddi ger eglwys heb ei chysegru.*

*Gan frysio ymlaen, a cheisio peidio â meddwl am oblygiadau'r cartrefi gwag hyn a'r nifer fawr iawn o bobl ddigartref yn ein gwlad, aethom heibio i'r meysydd tanio distaw. Dychwelsom drwy'r goedwig yn flinedig, wedi ymlacio, ond yn bryderus am y cenedlaethau i ddod yn cael eu magu mewn cymdeithas lle mae trais o'r fath yn cael ei dderbyn fel rhan o fywyd.*

*Gan i ni gael y fath ymateb da i'r daith gerdded hon, rhagwelwn y bydd teithiau eraill yn y dyfodol. Am wybodaeth bellach, ffoniwch (05505) 260.*

*Jill Freeman*

**Ceir llawer o gerfluniau o ddynion: brenhinoedd, uchelwyr, dyngarwyr, cadfridogion, a chofebau i ryfel.**

Ceir rhai cofebau a cherfluniau sydd yn anrhydeddu pobl a weithiodd i wneud y byd yn well lle ar eu hôl, er enghraifft, y cerflun efydd o Gandhi yn Llundain, a'r gofeb i Florence Nightingale yn Lerpwl.

Ar sgwâr Tregaron, mae cerflun efydd i Henry Richard, y talwyd amdano drwy danysgrifiad cyhoeddus. Oherwydd ei waith dros heddwch rhyngwladol, cyfeirid ato fel 'Apostol Heddwch'.

Ers canrifoedd bu cyrff menywod yn destun y 'dosbarth bywyd' a'r artist. Yng ngwledydd Prydain, ychydig iawn o gerfluniau cyhoeddus sydd o unigolion o fenywod. Ceir cynrychioladau crefyddol o'r fam a'r baban, caryatidau, menywod clasurol fel symbolau o gysyniadau megis Cyfiawnder, er enghraifft, ar ben llys barn yr Old Bailey yn Llundain.

Ger llaw Tŷ'r Cyffredin yn Llundain, mae dau gerflun o fenywod. Cerflun metel du o Fuddug a'i cheffylau a'i cherbyd rhyfel â chyllyll ar yr olwynion yw'r naill. Tybed ai oherwydd ei bod cystal â dyn fel rhyfelwr y mae hi yno?

Cerflun o arweinydd mudiad y bleidlais i fenywod, Mrs Emmeline Pankhurst, yw'r llall. Yn ddiweddarach, ychwanegwyd portread metel cerfwedd o'i merch hynaf Christabel. Fe'i cydnabyddir ill dwy yn ffurfiol a swyddogol, ond yr unig gydnabyddiaeth i Sylvia, ei merch o siosialydd, yw'r logo a ddyluniwyd ganddi a gynhwysir yn y gofeb hon.

Yn Perth, Awstralia, mae cerflun o fenyw a baban, yng nghanol pwll a ffynhonnau, sydd yn cynrychioli dewrder, cryfder a thynerwch yr holl Arloeswragedd.

Mae'r cerflun hwn yn gyffelyb o ran ystyr a chyd-destun i'r un a gynllunir i goffau a dathlu Ymdaith Heddwch Menywod Comin Greenham. Mae miloedd o fenywod o bedwar ban y byd wedi aberthu a gweithio dros heddwch er 1981.

Ychydig o fenywod sy'n cael y cyfle i gyrraedd safleoedd grym ffurfiol fel y gwnaeth Henry Richard. Er mwyn lleisio eu barn, rhaid iddynt wneud pethau mewn ffordd wahanol: gwersylla yn yr awyr agored, rhwystro ffyrdd, cael eu taflu i ffosydd, dioddef carchar a sarhad.

Y menywod hyn yw arwresau'r wythdegau ac maent yn haeddu eu cydnabod. Mae'n hen bryd codi enghraifft ddifrif a hardd o gerfluniaeth gyhoeddus gan fenyw yn dathlu gorchestion menywod.

Cynigiwn godi cerflun coffa yng Nghaerdydd yn y fan lle cychwynnodd yr Ymdaith i Greenham, wedi ei gysegru i'r holl fenywod a fu'n rhan o Greenham. Ffigur syml, naturiol o fenyw a baban, fydd y cerflun, yn realistaidd, yn



eglur, ac o faint llawn. Yn y dyfodol, pan fydd mamau a'u plant allan yn siopa, a phlentyn yn gofyn, 'Mam, pam mae babi fanna?', gall menywod eistedd wrth droed y cerflun a dweud wrth y plant am Gomin Greenham a phopeth a olygai iddynt hwy.

**Thalia Campbell**

*Rhagor o fanylion oddi wrth Thalia, Glangors, Ynyslas, Borth, Dyfed SY24 5JU (0970) 871360.*

# Pwy anghofiodd am ddiarfogi?

Mae'r Biwro Heddwch Rhyngwladol yn trefnu cynhadledd ryngwladol yn Llundain i leisio pryder am y ffaith nad yw diarfogi ar agenda 'Uwch-Gynhadledd y Ddaear' a gynhelir ym Mrasil ym mis Mehefin.

Mae'r cyfarfodydd rhagbaratoawl ar gyfer Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu wedi gwrthod rhoi diarfogi ar yr agenda.

Mae'r Biwro wedi gwahodd siaradwyr o Sweden, Ffrainc, India, Colombia a gwledydd eraill i'r gynhadledd yng Ngholeg Heythorp yn Llundain o'r 10-12 Ebrill. Manylion gan Janet Bloomfield, 85 Maidavale Crescent, Coventry CV3 6GB, tel (0203) 411754. (Cost £5.)

• Mae Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig yn trefnu rali yn Central Hall, Westminster ar Ebrill 10 i drafod materion dan sylw ar gyfer Uwch-Gynhadledd y Ddaear. Dyma benllanw cyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd ledled gwledydd Prydain. Manylion gan UNA, 3 Whitehall Court, Llundain SW1A 2EL.

# Etholiad '92: ble mae'r pleidiau'n sefyll

**Ni all CND Cymru roi cefnogaeth agored i unrhyw blaid neu ymgeisydd neilltuol – ond wrth i'r etholiad cyffredinol nesau, gallwn sicrhau bod yr etholwyr yn glir parthed safbwynt y pleidiau ar faterion heddwch a diarfogi.**

**Mae holiadur ar gyfer darpar-ymgeisyddion seneddol wedi cael ei gylchredeg i'n grwpiau, a chydosodir y canlyniadau a'u cyhoeddi. Sicrhewch, da chi, bod eich grŵp yn danfon at yr ymgeisyddion yn eich etholaeth, ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r canlyniadau yn y wasg leol, a dychwelyd y canlyniadau i CND Cymru fel y gallwn baratoi datganiad cenedlaethol yn ystod yr ymgyrch etholiadol swyddogol.**

Cyhoeddir isod y datganiadau a dderbyniodd Heddwch gan y pleidiau gwleidyddol.

CONSERVATIVE

### Y BLAID GEIDWADOL

'Mae'r Blaid Geidwadol wedi cefnogi NATO erioed, a deil i'w chefnogi, ac y mae wedi glynu wrth strategaeth gytun Cynghrair yr Iwerydd erioed. Gwel y blaid feddu braw-atalydd niwclear annibynnol fel conglfaen amddiffynfeydd Prydain yn erbyn ymosodiad, niwclear neu gonfensiynol, ac er mwyn cynnal effeithlonrwydd y braw-atalydd hwnnw, mae'r Ceidwadwyr yn ymrwymedig i ddisodli'r system Polaris â fersiwn gyfaddasedig o system taflegrau Trident D. Cred y blaid Gweidwadol bod yn rhaid wrth bedair llongdanfor Trident er sicrhau bod o leiaf un allan ar y môr ar unrhyw adeg; ni fydd y nifer o ergydion a osodir ar bob cwch yn fwy na'r lleiafswm sydd ei angen er gallu braw-atal ymosodiad.

Cred y Ceidwadwyr, fodd bynnag, bod y newidiadau syfrdanol sydd wedi bod yn y byd yn golygu y gellir gostwng lefelau lluoedd arfog Prydain i lefelau'r 1980au. Yn neilltuol, canlyniad yw hyn i ddileu Cytundeb Warsaw, a'r gostyngiad, erbyn canol y 1990au, yn nifer y milwyr sydd yn wynebu NATO yn Ewrop o fwy na miliwn. Mae'r llywodraeth Geidwadol eisoes wedi cyhoeddi, yn Options for Change, gostyngiad o 6% mewn gwariant ar amddiffyn, i gynhyrchu lluoedd arfog sydd yn fwy hyblyg a symudol, a thrwy hynny, â mwy o allu i weithredu y tu allan i ardal NATO gydag offer mwy technolegol gymwys nag erioed o'r blaen.'

Labour Llafur Wales Cymru

### Y BLAID LAFUR

'Mae'r Blaid Lafur wedi ymrwymo i weithio dros fyd yn rhydd o fygythiad rhyfel. Yr ydym ers amser maith wedi pwyso am ostwng nifer arfau niwclear yn Ewrop fel camau cyntaf tuag at eu dileu ledled y byd.

Cefnogwn y nod o ddileu arfau niwclear o'r byd erbyn y flwyddyn 2000 drwy broses o negydu a gwireddu.

Byddwn yn atal cynlluniau'r Toriaid i gynyddu nifer ergydion niwclear Prydain, a chynnwys holl arfau niwclear Prydain yn y broses negydu. Byddwn yn mabwysiadu polisi o ddim defnydd cyntaf o arfau niwclear, a rhoi terfyn ar brofi dyfeisiadau niwclear Prydeinig.

Byddwn yn gosod rheolaethau gwleidyddol caeth ar bob gwerthiant arfau, ac atal gwerthu i wledydd lle caent eu defnyddio i ormesu yn fewnol neu fygwth gwledydd eraill.

Byddwn yn sefydlu Asianataeth Amrywio Amddiffyn i gynorthwyo cymunedau yr effeithir arnynt gan doriadau amddiffyn, ac i gynorthwyo cwmniau arfau i ddargyfeirio i mewn i gynhyrchu sifil.'

### Y BLAID WERDD

'Byddai polisi tramor y Blaid Werdd yn dileu'r rhwystrau rhwng dwyrain a gorllewin, gogledd a de, i greu un byd, byd o heddwch a chyfiawnder. Yr ydym am weld presenoldeb heddgadw mwy effeithiol gan luoedd y CU, wedi eu hyfforddi mewn dulliau di-drais.

Byddai'r Blaid Werdd yn mynd ati ar unwaith yn unochrog a diamod i ddarfogi Prydain yn niwclear. Byddem yn dileu Trident ac yn condemnio lleoliad a defnydd arfau niwclear gan unrhyw luoedd Prydeinig, ac yn gwahardd lleoli arfau niwclear gan unrhyw wlad dramor yng ngwledydd Prydain neu ei dibyniaethau tramor. Yn yr oes niwclear, ni all unrhyw bolisi amddiffyn warantu diogelwch, ond mae polisiau amddiffyn presennol sydd yn gwneud y DU yn brif darged heb wneud dim i sicrhau heddwch a diogelwch gwirioneddol, yn gwbl annerbyniol. Byddai gwaharddiad cyffelyb ar arfau cemegol a biolegol.

Byddem yn gostwng gwariant ar amddiffyn i'r lleiafswm posibl er amddiffyn tiriogaethol a chymdeithasol effeithiol; yn gweithio gyda'r diwydiannau amddiffyn a'u gweithwyr i gynhyrchu cynlluniau er hyrwyddo cynhyrchu cynnyrch cymdeithasoi-ddefnyddiol, ac yn gwahardd allforio arfau.'

Plaid Cymru

### PLAID CYMRU

'... Mae Plaid Cymru wedi hyrwyddo diarfogi niwclear unochrog erioed, a dileu arfau biolegol a chemegol, ac mae'n gwrthod y ddamcaniaeth y gall grym arfau ddod â heddwch, ffyniant neu gyfiawnder. Mae Plaid Cymru yn ymrwymedig i Gymru ddi-niwclear o fewn byd di-niwclear.

Croesawn ddiweddu gwrthdaro a rhaniadau yn Ewrop ac edrychwn ymlaen at well perthynas rhwng dwyrain a gorllewin. Gyda machlud Cytundeb Warsaw, ail-ategwn ein cred y dylid datgymalu NATO a chreu system ddiogelwch ar y cyd yn Ewrop ... Fodd bynnag, yr ydym yn llwyr wrthwynebu creu cynghrair Ewropeaidd niwclear a chredwn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar sefydlu cyfeillgarwch, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobloedd. Yn y cyd-destun hwn, galwn am wneud y Cenhedloedd Unedig yn asiant cadw heddwch mwy effeithiol ym materion y byd.

Mae Plaid Cymru'n gwrthwynebu'r fasnach arfau ryngwladol ... Condemniwn y llywodraeth Brydeinig am ei rhan mewn gwerthu arfau ac offer gormes, a galwn am fwy o reolaeth ar bob trosglwyddiad arfau. Dangosodd argyfyngau diweddar yr angen am atgyfnerthu'r Cytuniad Gwrth-Amlhad Niwclear ac am gyflwyno Cytuniad Gwahardd Profion cynhwysfawr ...

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng tlodi a gwariant milwrol. Oni chwtogir ar y gyllideb amddiffyn enfawr, ni cheir cynnydd ystyrlon mewn gwario ar anghenion pobl yn ein cymunedau ...'

Liberal Democrats

### DEMOCRATIAID RHYDDFRYDOL

'...Gyda'r Rhyfel Oer wedi dod i ben, gallwn edrych ymlaen at ymdaflu i'r gwaith o sefydlu trefn heddychlon barhaol yn Ewrop. Ein blaenoriaethau yw:

- Datblygu'r Gynhadledd ar Ddiogelwch a Chyd-weithrediad yn Ewrop (CDCE) yn fudiad parhaol yn seiliedig ar Gytuniad, yn sail i rwydwaith diogelwch Pan-Ewropeaidd.
- Dadfilwreiddio'r berthynas rhwng dwyrain a gorllewin drwy negydu diarfogi fesul cam, gan gynnwys arfau niwclear Prydain.
- Gostyngiad tymor-hir yng ngwariant y byd ar arfau, gan gynnwys cwtogi ar wariant amddiffyn y DU o 50% mewn termau real erbyn y flwyddyn 2000.

## HYNT A HELYNT HEDFAN ISEL

*Danfonodd CND Cymru gynrychiolwyr i'r gynhadledd fawr gyntaf ar hedfan isel, a gynhaliwyd yn Llandrindod, Powys ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf.*

*Fe'i cynulliwyd gan yr ASEau David Morris a Joe Williams, a dan gadeiryddiaeth Betty Williams, aethpwyd ati i archwilio effaith hedfan isel ar bobl, da byw ac amgylchedd Cymru.*

*Clywsom rhai ffeithiau caled gan Malcolm Spaven, un o arbenigwyr blaenllaw gwledydd Prydain ar bolisi hedfan isel yr Awyrlu, yn ogystal ag adroddiadau llygad-dyst gan bobl yr effeithir yn uniongyrchol ar eu bywydau gan hedfan isel.*

*Soniodd Gillian Metcalf, Canadiad sydd bellach yn byw yn Llanbedr Pont Steffan, wrthom am yr ymgyrch yng Nghanada yn erbyn hedfan isel, a pham nad yw allforio'r broblem yn ateb, fel y mae rhai gwleidyddion fel pe baent yn ei awgrymu.*

*Y naill ar ôl y llall, siaradodd cynrychiolwyr cynghorau, undebau ffermwyr, a grwpiau cadwraeth am y peryglon i'w cymunedau. Ar derfyn y dydd, cefnogodd y gynhadledd yn unfrydol y galw am:*

- *foratoriwm ar hedfan isel*
- *sefydlu ymchwiliad annibynnol llawn i'r angen am hedfan isel*
- *broses gwyno annibynnol*

*drefniadaeth orfodol o hysbysu o flaen llaw i awyrennau sifil sy'n hedfan yn isel.*

*Tanlinellwyd pwysigrwydd holl broblem hedfan isel i bawb oedd yn bresennol gan y ffaith bod y neuadd dan ei sang tan y diwedd, er gwaethaf gorfod wynebu siwrnai faith adref ar brynhawn Sadwrn tywyll oer.*

*• Mae Gillian Metcalfe yn gweithio i sefydlu rhwydwaith cysylltiadau 'hedfan-isel' ledled Cymru, a charai glywed gan unrhywun sydd yn gwrthwynebu hedfan isel neu a all roi gwybodaeth iddi, er enghraifft, ar farn neu bolisi eu hawdurdodau lleol ar y mater. Ffoniwch Gillian ar 0570 45576 (ffacs: 0570 45636) neu ysgrifennwch ati yn: Tŷ Yfory, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed SA48 8JT.*

*Os carech fwy o wybodaeth am ymgyrch CND Cymru, ffoniwch 0766 831356.*

# Blwyddyn wedi Rhyfel y Gwlff

**Aeth blwyddyn heibio er rhyfel y Gwlff. Yn y deuddeg mis er hynny, mae newidiadau carlamus wedi bod yn y Dwyrain Canol a gweddill y byd. Dyma'r adeg i gamu yn ôl i geisio pwyso a mesur y sefyllfa gyfredol, ac edrych am wersi i'r mudiad heddwch yn y cyfnod cyffrous ond ingol hwn yn hanes y byd.**



**Mae CND Cymru a Heddwch eisoes wedi galw sylw at y pris anferth a dalwyd yn ystod y rhyfel i ryddhau Kuwait mewn niwed i'r amgylchedd a dioddefaint pobl. Yn y misoedd er diwedd y gwrthdaro, mae rhestr y dioddefwyr wedi tyfu.**

Cafodd y Kurdiaid yn y gogledd a phoblogaeth Shia de Iraq eu gormesu'n ddidrugaredd gan luoedd Saddam; mae dynion, menywod a phlant Iraq yn dal i farw o ganlyniad i ddiffyg dŵr glân a thriniaeth feddygol ddigonol.

Ymosodwyd ar Balestiniaid yn byw yn Kuwait, eu carcharu, a'u taflu allan o'u gwlad fabwysiedig. Mewn bras-ddadansoddiad cost/buddiannau, rhaid bod cost rhyfel y Gwlff yn gwrthbwyso unrhyw fuddiannau honedig.

Croesawn y gyfres bresennol o drafodaethau heddwch, gydag Arabiaid ac Israeliaid yn eistedd wrth yr un bwrdd i drafod dyfodol y Dwyrain Canol, er ei bod yn amhosib darogan eu canlyniad ar hyn o bryd. Dylem wrthod, fodd bynnag, honiadau rhai pobl fod yn rhaid wrth ryfel y Gwlff i esgor ar y trafodaethau hyn.

Mae diflaniad Cytundeb Warsaw fel cynghrair filwrol o bwys; methiant yr archeconomiau a'u strwythurau gwleidyddol yn nwyrain Ewrop, a chwymp yr Undeb Sofietaidd wedi dileu 'cydbwysedd' o eiriadur y dadansoddwyr, a rhyddhau grymoedd newydd, amhosib eu mesur ar hyn o bryd, ar lwyfan y byd.

Un canlyniad a groesewir yw'r ffaith bod UDA, Rwsia a'r pwerau dwyreiniol eraill yn derbyn bod hyn yn gyfle i gwtogi'n llym ar arfau.

Mae ceisio proffwydo ffurf map gwleidyddol Ewrop yn y misoedd, blynyddoedd a degawdau nesaf yn mynd i fod yn ddiddorol dros ben, ond nid wyf yn credu y dylai'r rheini ohonom sydd â'r brif nod o greu byd tecach, mwy rhydd a mwy heddychlon dreulio gormod o amser yn syllu i belen grisial.

Dylem, fodd bynnag, fod yn barod i ddysgu gan drasiediau rhyfel y Gwlff a'r gwrthdaro yn yr hyn oedd yn wladwriaeth Iwgoslafia, a'r 'problemau cenedlaethol' yn yr hen Undeb Sofietaidd.

Rhaid i ni gydnabod y gall galw cwbl gyfiawn pobloedd am ymreolaeth, os ceisir ei ennill drwy wrthdaro treisiol, greu ym meddyliau cyfeillion a gelynion fel ei gilydd allgasedd milain a hyll sydd yn cyfiawnhau iddo'i hun unrhyw anfadwaith cyhyd ag y bo hynny erbyn ei elyn 'cenedlaethol', boed yn Serb, Croat, Arab, Iddew, Protestant, Pabydd, Rwsiad neu Dartar.

Yn yr amserau ansicr hyn, mae angen i'r mudiad heddwch gynorthwyo ymgais cymuned y byd i ddod o hyd i strwythurau a mecanweithiau sydd yn caniatau datrys gwrthdaro rhwyngwladol yn deg ac yn gyfiawn heb droi at wrthdaro arfog. Ac mae angen i ni helpu i sicrhau na throir y sefydliadau a adeiladwyd gennym eisoes yn gyfrwng hyrwyddo buddiannau'r cenhedloedd mwyaf o ran maint a grym.

Ond erys ein gorchwyl pwysicaf a pharhaus yn ddigyfnewid – sef dangos i bobl yma yng Nghymru, gwledydd Prydain, Ewrop a gweddill y byd nad oes angen arfau niwclear na diben defnyddiol iddynt hwy nac arfau dinistr torfol eraill.

Er cyflwni'r gorchwyl hwnnw, rhaid i ni ganolbwyntio ar yr angen am fuddsoddi mewn prosiectau cyfaddasu, a defnyddio doniau a gysegrir ar hyn o bryd i greu arfau i ddibenion o ddefnydd cymdeithasol; budd symud adnoddau oddi wrth arfau tuag at les, a'r canlyniadau i'r byd sy'n datblygu oni wneir y newidiadau hanfodol bwysig hyn.

Ein nod gyntaf yw darbwyllo pobl gwledydd Prydain a'r llywodraeth nesaf, o ba blaid bynnag, bod bwrw ymlaen â'r rhaglen Trident yn nonsens peryglus sydd yn mynd yn erbyn llanw hanes a synnwyr cyffredin.

**David Morris MEP**
**Cadeirydd CND Cymru**

# Mae gwario ar arfau yn lladd

**'Yn yr Oes Niwclear, bydd arnom angen ffordd sylweddol newydd o feddwl os oes gobaith i'r ddynolryw oroesi' – Einstein**

Bydd y llywodraeth Brydeinig wedi gwario £21.5 biliwn ar 'amddiffyn' ym 1990. Mae galwadau am ddifidend heddwch hyd yma wedi esgor ar gwtogiad arfaethedig yn y gorwariant o £0.6 biliwn a ragwelir – efallai! Byddai'r cynnig o gwtogi ar unwaith o £6 miliwn yn dod â ni i lawr i lefel gwariant ein cynghreiriaid Ewropeaidd.

Mae diwydiant cynhyrchu gwledydd Prydain yn dioddef oherwydd diffyg buddsoddi, ac addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn dioddef oherwydd prinder arian. Ac eto, deil y diwydiant arfau i draflyncu rhan helaeth o'n hadnoddau ariannol a dynol gwerthfawr.

Does bosib bellach bod unrhyw ddadl yn erbyn trosglwyddo adnoddau o gynhyrchu milwrol diwerth er gwella ansawdd bywyd pobl.

Mae'r diwydiant arfau yn cyflogi gweithwyr medrus sydd yn defnyddio technolegau uwch. Mae un o bob deg person yn gweithio mewn cynhyrchu milwrol, i'w gymharu ag un o bob deuddeg ym 1979. Mae unarddeg y cant o gynhyrchiant diwydiannol Prydain bellach yn gysylltiedig ag 'amddiffyn, i'w gymharu â chwech y cant ym 1979.

Ledled y byd, mae cyfanswm o ryw hanner miliwn o wyddonwyr yn gweithio ar ymchwil filwrol. Yng ngwledydd Prydain ac UDA, mae rhyw hanner cant y cant o wyddonwyr yn gweithio ar ymchwil yn ymwneud ag arfau, i'w gymharu â 37 y cant yn Ffrainc, deg y cant yn yr Almaen, a dau y cant yn Siapan.

Mae ymchwil milwrol yn hawlio mwy na 50 y cant o arian ymchwil a datblygiad llywodraeth y DU. Mewn cyferbyniad rhonc llai na dau y cant a roddir i ymchwil meddygol. Gwna'r elusennau meddygol fwy o waith ymchwil na'r llywodraeth.

Cymerodd rhaglen lwyddiannus Mudiad Iechyd y Byd i ddileu'r frech wen bron un flynedd ar ddeg, a chostiodd yr hyn a werir gan y byd ar arfau mewn teirawr. Byddai darparu mesurau atal-cenhedlu ar gyfer yr holl fenywod yn y byd sydd am reoli ei ffrwythlondeb yn costio gwariant deg awr. Mae'r byd yn gwario $2 filiwn y funud ar arfau.

Mae nifer y marwolaethau y gellid eu hatal ymhlith plant dan bump gyfwerth ag effaith gollwng bom Hiroshima bob tri diwrnod. Byddai rhaglen bum-mlynedd o imwneiddio plant yn erbyn tetanws, y frech goch, polio, diptheria a thyphoid yn arbed llawer o'r plant hyn. Y gost? Llai na gwerth diwrnod o wariant ar arfau.

Mae'r tair prif blaid Brydeinig wedi ymrwymo i brynu Trident. Mae'r system yn gwbl ddibynnol ar adnoddau cefnogol a gwasanaeth lloerennau'r UD, bydd yn bygwth rhannau o wledydd sydd bellach yn NATO, ac mae'n dal heb brofi y gall weithio. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn dweud y cost a'i Trident £15 biliwn. Pymtheg mil o filiynau. £1,500 y diwrnod am y 30,000 o flynyddoedd nesaf.

Byddai pedwar Trident yn talu am 2,000 o ysbytai newydd. Costiai lai na chost un ffrwydryn Trident i weithredu system gyfrifiadur i sgrinio am gancr yng Nghymru a Lloegr: ar hyn o bryd, ni chafodd dau-draean o fenywod â chancr genau'r groth eu sgrinio o gwbl, ac ni sgriniwyd naw o bob deg sydd yn marw o'r afiechyd.

O'r pum miliwn o bobl sy'n byw o dan y terfyn tymheredd cyfreithiol o 63 F, amcangyfrifir y bydd 30,000 yn marw'n ddianghenraid y gaeaf yma. Ac eto, byddai cost deg ergydyn Trident yn darparu ar gyfer anghenion yr henoed.

Rydym yn byw mewn byd cynyddol rhyng-ddibynnol. Ni all un wlad ar ei phen ei hun ddatrys y problemau sy'n wynebu'r ddynolryw. Rhyddatblygiadau gwyddonol a thechnolegol i ni'r modd a'r strategaeth i ddatrys y problemau hyn. Os ydym am achub ein byd, rhaid i ni newid ein hen syniadau o ddatrys problemau drwy wrthdaro. Dyna'r her fawr i'r mudiad heddwch – i newid ffordd llywodraethau'r gorllewin o fynd ati, yn seiliedig ar wrthdaro. Er mai elw yw eu cymhelliant, rhaid iddynt weld heb ddaear, heb elw.

**Adrienne Morgan**
**Is-gadeirydd CND Prydeinig**

# Y cyswllt campws

Mae adroddiad newydd wedi datgelu sut mae'r ras arfau yn cael ei rhedeg mewn colegau leded Cymru.

Lluniwyd yr adroddiad, *The Campus Connection*, gan CND'r Myfyrwyr fel rhan o'i ymgyrch yn erbyn ymchwil filitaraidd mewn colegau. Mae'n rhestru 850 o brosiectau ymchwil arfau a milwrol y gweithir arnynt ar hyn o bryd mewn prifysgolion a cholegau politechnig ledled gwledydd Prydain, wedi eu cyllido gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, NATO, a'r Pentagon.

Er bod y Rhyfel Oer ar ben, mae'r llywodraeth yn dal i arllwys hanner ei holl ei chyllideb ymchwil i mewn i raglenni milwrol. Ac yn y saith mlynedd diwethaf, mae'r gwaith ymchwil milwrol a wnir mewn labordai colegol wedi treblu.

Mae Ken Livingstone AS wedi condemnio'r 'militareiddio graddol ar addysg'. Ynghyd ag awduron y llyfr, dadleua mai'r cwtogi llym ar gyllid prifysgolion dros y blynyddoedd, yn enwedig ar arian y cynghorau ymchwil sifil, sydd ar fai am orfodi athrawon prifysgol sy'n brin o arian i dderbyn arian militaraidd.

Mae *The Campus Connection* hefyd yn datgelu am y tro cyntaf y cynnydd dramatig a fu mewn ymchwil i arfau cemegol a biolegol yng ngwledydd Prydain. Â yn ei flaen i fanylu ar waith dadleuol ar systemau arfau niwclear, dyfeisiadau gwylio electronig a Star Wars.

Mae cyfrinachedd ymchwil milwrol ar y campws yn peri pryder ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Dywed CND'r Myfyrwyr bod y llywodraeth, er gwaethaf cais ar ôl cais gan y cyhoedd ac ASau, wedi dal i wrthod cyhoeddi manylion am gytundebau campws. Fodd bynnag, mynna'r llywodraeth nad yw'r rhan fwyaf o'r gwaith a gyllidir ganddi yn wybodaeth gyfrinachol. Mae diffyg ymateb y llywodraeth wedi ysgogi hyd yn oed yr AS Toriaidd Richard Shepherd i ochri gyda'r myfyrwyr.

Dywed Sue Mayer, darlithydd ym Mhrifysgol Bryste a ymddiswyddodd fel protest yn erbyn ymchwil i arfau cemegol a biolegol yn ei hadran hwsmonaeth anifeiliaid, bod ymchwil filwrol yn gosod llawer o ymchwilwyr mewn cyfyng-gyngor annerbyniol. Condemniodd hefyd o'r llwyfan, yn y gynhadledd i'r wasg i lawnsio'r adroddiad, gynllunwyr milwrol Prydain am wastraffu'r difidend heddwch.

Mae'r adroddiad yn cloi drwy rybuddio bod porthi'r ras ymchwil filitaraidd yn cynorthwyo i waethygu problemau amlhad a pharhad y ras arfau.'

Mae *The Campus Conncetion* ar gael gan CND'r Myfyrwyr, 162 Holloway Road, Llundain N& 8DQ, pris £3.

## RHESTRU'R COLEGAU

*Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyllido ymchwil i arfau confensiynol yn:*

**Coleg Caerdydd, Prifysgol Cymru**
adrannau Ffiseg, Peirianneg, Cemeg a Chemeg Gymwysedig, Peirianneg Drydannol, Electronig a Systemau, Astudiaethau Saesneg.

**Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth**
adrannau Ffiseg a Gwyddoniaeth Gyfrifiadur.

**Coleg Prifysgol Cymru, Abertawe**
adrannau Peirianneg Drydannol, Peirianneg Defnyddiau, Ffiseg, Peirianneg Fecanyddol, Peirianneg Sifil.

**Politechneg Cymru**
adrannau Gwyddoniaeth a Pheirianneg Gemegol, Cyfrifiadureg a Mathemateg.

Mae PORTON DOWN, canolfan ymchwil arfau biolegol a chemegol gwledydd Prydain, yn cyllido ymchwil yn:

**Coleg Caerdydd, Prifysgol Cymru**
adrannau Biogemeg, Microfioleg, Gwyddoniaeth Fferyllol.

**Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor**
adran Gemeg

**Coleg Meddygol Prifysgol Cymru, Caerdydd.**

Mae ALDERMASTON, canolfan ymchwil arfau niwclear gwledydd Prydain, yn cyllido ymchwil yn:

**Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth**
adran Ffiseg;

Mae ADRAN AMDDIFFYN UDA (y Pentagon) yn cyllido ymchwil milwrol yng Ngholegau Prifysgol **Bangor** ac **Aberystwyth**.

# Lladd wrth allor preifateiddio?

**'Rhaid i ni beidio ag aberthu ein lles yn y dyfodol am enillion tymor-byr, na phentyrru dyledion amgylcheddol a fydd yn faich ar ein plant.' (O'r crynodeb o Bapur Gwyn y Llywodraeth ar yr Amgylchedd, "This Common Inheritance", 1990.)**

Mae Cymru'n dioddef yn wael iawn o effeithiau glaw asid (fel yr adroddwyd yn rhifyn diwethaf *Heddwch* Mae ffigurau'r llywodraeth ei hun yn dangos y bydd rhannau helaeth o Gymru yn dal i ddioddef niwed, hyd yn oed os cyrhaeddir y nod bresennol er lleiahau allyriant erbyn 2005.

• Dywed Cyngor Cefn Gwlad Cymru bod angen lleihad o 60 y cant mewn llygredd asid er mwyn 'atal dirywiad mewn llynnoedd ac afonydd, a bydd angen toriadau mwy fyth er mwyn adfer y cynefinau hynny.'

Dechreuodd Gorsaf Bwer Penfro weithredu rhwng 1970 a 1973, ond effeithiwyd yn ddwys arni gan y cynnydd mewn pris olew ar ôl rhyfel Arabaidd-Israeli Hydref 1973. Dim ond yn ystod streic y glowyr 1984/85 y bu'n gweithredu ar raddfa unrhywbeth tebyg i eithaf ei gallu. Un canlyniad pwysig i hyn yw bod ei hallyriant sylffwr diocsid (SO2) wedi bod yn llawer is na'r hyn a ganiateid o dan amodau trwyddedu gwreiddiol yr orsaf.

Daw'r prif wyntoedd ym Mhenfro o'r de-orllewin, gan gario allgynnyrch yr orsaf dros y rhannau mwyaf sensitif o Gymru. Mae'n amlwg pe bai Penfro wedi bod yn llosgi olew hyd eithaf ei gallu dros yr ugain mlynedd diwethaf, y buasai'r niwed amgylcheddol i ucheldir Cymru wedi bod yn llawer iawn gwaeth.

Mae'r llywodraeth wedi gosod nodau er lleihau niwed i'r amgylchedd. Dywed ei Phapur Gwyn ar yr amgylchedd: 'Bydd Prydain yn torri'n sylweddol ar allyrriant sylffwr diocsis ac ocsidau nitrogen o orsafoedd pwer.' Gosodwyd nodau ar gyfer cwtogi ar allyrriant, a rhoddwyd cwotau cyffredinol i gwmniau cynhyrchu ar gyfer allyrriant.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae National Power yn bwriadu llosgi tanwydd Orimulsion yng ngorsaf bwer Penfro, gan gynhyrchu hyd at 13 gwaith yn fwy o allyrriant SO2. Nid oes gan National Power unrhyw gynlluniau i osod offer Dadsylffwreiddio Nywon Simnai (DNS) – neu 'lanhawyr asid' ym Mhenfro, er y gallai'r rheini gael gwared â 95 i 98 y cant o allyrriant asid.

Emwlsiwn o bitument a dŵr yw Orimulsion a gynhyrchir yn rhanbarth yr Orinoco yn Venezuela. Mae'n cael ei farchnata fel tanwydd rhad y gellir addasu gorsafoedd olew i'w losgi, a sefydlogwyd ei bris i'w wneud yn rhatach na glo.

Yn ôl y Comisiwn Cefn Gwlad, Penfro bydd y ffynhonnell fwyaf erioed o allyrriant sylffwr yng Nghymru os llosgir Orimulsion heb DNS – a bydd yn chwydu allan mwy na 10 y cant o'r holl allyrriant SO2 a gynhyrchir gan bobl yn y DU.

Mae cais NP o dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 yn cael ei ystyried gan Arolygaeth Llygredd Ei Mawrhydi (ALlEM) ar hyn o bryd. Maent wedi derbyn gwrthwynebiadau gan amrywiaeth helaeth o gyrff cyhoeddus (yn cynnwys Cyngor Sir Dyfed, yr Awdurdod Afonydd, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru).

Mae National Power yn ceisio cuddio y tu ôl i'r caniatad ugain mlwydd oed i losgi olew ym Mhenfro gan ddweud y cyfyngir ar y lefel o losgi Orimulsion fel na fydd allyrriant SO2 'yn fwy na'r hyn a ganiateir ar hyn o bryd pan losgir olew'. Maent yn hawlio 'y gellid llosgi Orimulsion ym Mhenfro o fewn ... terfynau' y Cynllun Cenedlaethol er lleihau allyrriant yn unol â Chyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Mawr y GE.

Dywedodd Eduardo Hernandez-Carstens, un o gyfarwyddwyr Corfforaeth Bitor America (sydd yn gwerthu Orimulsion yn UDA) wrth gynhadledd ym mis Hydref 1991: 'Bydd angen offer dadsylffwreiddio nwyon simnai mewn unrhyw waith sydd yn llosgi'r tanwydd ar sail llwyth-sylfaenol.' Defnyddir DNS yn Dalhousie yng Nghanada, gan new Brunswick Power, ac yn Siapan.

Yn yr un gynhadledd, dywedodd Egon Kimel o Burns & Rowe, cwmni peirianneg o New Jersey, y gwrthbwysid cost gosod glanhawyr nwyon yn eu lle gan yr arian a arbedid drwy addasu gwaith llosgi olew i losgi Orimulsion.

Cysylltwch â'ch AS ac ALlEM i roi gwybod iddynt beth yw eich barn chi am eu cynllun i aberthu cefn gwlad Cymru ar allor priefateiddio trydan.




Ian Campbell

'Cadwch Traws ar gau' – dyna oedd y neges mewn gwrthdystiad yn y Bala ar yr 22 Chwefror

# Trawsfynydd ar y dibyn

**Dylai cyfaddefiad Nuclear Electric (ar Chwefror 8) bod 'clym-far' wedi torri yn Adweithydd Rhif 2 Trawsfynydd olygu pen y daith nid yn unig i Drawsfynydd ond i bob adweithydd Magnox.**

Mae'r cyfansoddrannau hyn yn hanfodol i ddiogelwch yr adweithydd. Os metha un ohonynt, yna trosglwyddir straen ychwanegol i'r gweddill, a gallai'r rheini fethu wedyn.

Pryder parthed y posibilrwydd y gallai'r rhannau hyn fethu a arweiniodd at is-raddio'r adweithyddion ym 1969, bedair blynedd yn unig wedi iddynt gychwyn gweithredu. Ymgais oedd yr is-raddio hyn, a olygai weithredu ar dymheredd is, i atal neu arafu'r cyrydu.

Mae bellach yn amlwg nad yw rhedeg yr adweithyddion hyn ar dymheredd is am 22 mlynedd wedi llwyddo i ddatrys y broblem.

Efallai bod Trawsfynydd yn dioddef breuder gwaeth na'r gorsafoedd Magnox eraill, ond roedd cyrydu'n broblem ym mhob un ohonynt. Gallai clym-far fethu'n sydyn yn unrhywun o'r gorsafoedd Magnox gweithredol, a pheri trychineb.

Yr hyn sydd yn gwneud hwn yn fater difrifol dros ben yw'r ffaith bod yn rhaid cynyddu tymheredd gweithredu'r adweithyddion bellach i wrthbwyso'r breuder.

Bydd hyn yn cynyddu'r cyrydu sydd yn arwain at fethiant clym-farau a chyfansoddrannau eraill.

Mae Nuclear Electric ar ymyl y dibyn.

Mae cyrydu a breuder wedi gadael eu heffaith ar yr hen adweithyddion Magnox hyn. Mae'r datguddiad diweddaraf hwn yn dystiolaeth bendant y dylid eu cau bob un ohonynt cyn bod damwain ddifrifol.

Mae Adweithydd rhif dau yn Nhrawsfynydd wedi bod ar gau am y deuddeg mis diwethaf. Mae CWNC yn mynnu gwybod sut a phryd yn union y methodd y clym-far. A ddigwyddodd cyn cau'r adweithydd neu wedi hynny?

Clym-farau sydd yn dal craidd graffid yr adweithydd yn ei ffurf gywir. Os camffurfir yr adweithydd oherwydd methiant un neu fwy o glym-farau, yna ni ellir gosod y gwiail rheoli sydd yn cau'r adweithydd i lawr i mewn iddo. Mae pob clym-far ym mhob adweithydd Magnox bellach dan amheuaeth.

**Hugh Richards**
**Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru**

*Typeset by Pia Ltd, Cardiff (0222) 222782. Printed by Fingerprints (TU), Cardiff (0222) 482582.*